



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diweddaru Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

Dyddiad cyhoeddi: 28 Awst 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Medi 2018.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r papur ymgynghori hwn yn esbonio'r newidiadau sydd ar fin cael eu gwneud i Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 ac yn gofyn ichi am eich barn am y newidiadau hynny.

Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad:
Yr Is-adran Fwyd,
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UR

e-bost: FoodDivisionalBusiness@gov.wales

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth personol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld
- yr hawl i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny
- yr hawl i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar ei brosesu
- yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i fynnu bod eich data yn cael eu dileu
- yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- yr hawl i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Pwrpas yr Ymgynghoriad

Pwy fydd yn teimlo effaith y cynnig hwn?

Amseriad yr ymgynghoriad hwn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

3. Y Cynigion Ymgynghori

Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) – beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Ble rydym ni arni ar hyn o bryd?

Y Newidiadau a Gynigir

4. Atodiadau

Dogfen 1 - Templed Ymateb i'r Ymgynghoriad

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Rheoliad (EC) rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop dyddiedig 17 Gorffennaf 2000 yn gosod allan system yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer tagio a chofrestru gwartheg ynghyd â'r gofynion ar gyfer labelu cig eidion a chynnyrch cig eidion, gan gynnwys labelu cig (gan gynnwys offal) gwartheg 12 mis oed neu lai a labelu cynnyrch cig eidion wedi'u pacio a heb eu pacio.
- 1.2 Amcan y ddeddfwriaeth oedd cryfhau'r mesurau olrhain rhag i gynnyrch halogedig ymuno â'r gadwyn fwyd a pheryglu iechyd pobl.
- 1.3 Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru *trwy* Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 sy'n rhoi pwerau gorfodi mewn cysylltiad â'r ymrwymïadau gwirfoddol Ewropeaidd ar labelu cig eidion a geir yn Rheoliad (EC) 1760/2000.
- 1.4 Mae'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd uchod bellach wedi'i diweddarau gan Reoliad (UE) rhif 653/2014 sy'n diwygio Rheoliad (EC) rhif 1760/2000 mewn cysylltiad â labelu cig eidion. Mae'r newidiadau'n diddymu'r cynllun labelu gwirfoddol i adlewyrchu egwyddorion labelu cyffredinol Rheoliad (UE) rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i'r defnyddiwr. O ganlyniad mae angen newid Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 hefyd.

2. Pwrpas yr Ymgynghoriad

2.1 Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw rhoi gwybod ichi bod y cynllun labelu gwirfoddol yn cael ei ddiddymu, gofyn ichi am eich barn am hynny a diweddarau'n rheoliadau domestig i adlewyrchu'r egwyddorion labelu cyffredinol ar gyfer darparu gwybodaeth am fwyd i'r defnyddiwr.

Pwy fydd yn teimlo effaith y cynnig hwn?

2.2 Bwriedir yr ymgynghoriad hwn ar gyfer unigolion sy'n gysylltiedig â'r diwydiant prosesu cig yng Nghymru ac yn bennaf, unrhyw un sy'n gysylltiedig â rheoleiddio labeli cig eidion a chig llo a labelu cynnyrch bwyd. Bydd o ddiddordeb arbennig ichi os ydych:

- Yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosesu cig
- Yn ymwneud â gweithgareddau er lles y diwydiant Labelu Cig Eidion a Chig Llo

Amseriad yr ymgynghoriad

2.3 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 4 wythnos o 28/08/2018 tan 25/09/2018. Ni fyddwn yn ystyried ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

2.4 Rydym wedi rhoi gwybod i randdeiliaid y diwydiant beth yw pwrpas ac amseriad yr ymgynghoriad hwn.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

2.5 Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r templed ffurfiol a welwch yn Nogfen 1.

Gallwch e-bostio'r ddogfen yn ôl atom at:

FoodDivisionalBusiness@gov.wales

neu ysgrifennu at:

Llywodraeth Cymru
Yr Is-adran Fwyd,
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

2.6 Ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori, cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion a'u rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau a mudiadau fydd wedi ymateb ond nid enwau, cyfeiriadau na manylion cysylltu eraill. Ond bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, o bosib yn cael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau ar gyfer gweld gwybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

2.8 Os ydych am inni gadw gwybodaeth, gan gynnwys y data personol y byddwch yn eu darparu, yn gyfrinachol, esboniwch yn glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn cyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, pam eich bod am inni gadw'r manylion hyn yn gyfrinachol. Pan ddaw cais trwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am gael gweld eich gwybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y byddwn yn gallu ei chadw'ch gyfrinachol bob amser. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG ynddo'i hun, yn cael ei ystyried fel cais am gyfrinachedd.

2.10 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" a welir yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance> ac yn gyfystyr â'r "Egwyddorion Cenedlaethol ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd" a welir yn <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>

3. Y Cynnig

Labelu Cig Eidion a Chig Llo – beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

3.1 Yr hyn sydd ynghlwm wrth ofynion y drefn labelu wirfoddol bresennol?

Mae Rheoliadau Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 yn rhoi pwerau gorfodi i Weinidogion Cymru sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau'r UE ar labelu cig eidion fel y'u gwelir yn Rheoliad CE 1760/2000.

Maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol rhoi rhif unigryw ar labeli cig eidion a chig llo (ond nid briwrig na thorion) er mwyn i'r cig allu cael ei olrhain i anifail neu grŵp o anifeiliaid penodol; gwlad geni'r anifail o dan sylw; gwlad magu'r anifail; gwlad lladd yr anifail; a manylion y lladd-dy a'r ffatri dorri (lle bo hynny'n gymwys).

Yn ogystal â'r gofynion labelu gorfodol uchod, gellir rhoi honiadau gwirfoddol ynghylch ble y cafodd yr anifail y daeth y cig ohono ei eni, ei besgi a'i ladd o dan y system wirfoddol ar gyfer labelu cig eidion. Ond cyn rhoi'r fath wybodaeth ar label, rhaid cyflwyno unrhyw honiadau gwirfoddol i'r UE eu cymeradwyo.

3.2 Beth bydd y drefn orfodol newydd yn gofyn amdano

Prif effaith y drefn newydd yw diddymu'r agwedd sy'n ymwneud â honiadau gwirfoddol y cynllun labelu. Dilynir nawr yr egwyddorion labelu cyffredinol yn y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (Rheoliad (UE) 1169/2011).

Mae'r egwyddorion labelu cyffredinol yn pennu sut y dylid cynnwys honiadau o'r fath ynghylch tarddiad neu ladd ac ati ar unrhyw label. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws gwneud yr honiadau uchod ar labeli cig eidion a chig llo gan nad oes yn rhaid eu cyflwyno i'w cymeradwyo bellach ymlaen llaw. Bydd hynny'n symleiddio'r broses ar gyfer gwneud honiadau o'r fath ar labeli cig eidion a chig llo.

Tra phery'r DU yn aelod o'r UE, mae angen i'n rheoliadau domestig adlewyrchu cyfraith yr UE a hefyd, rhaid mewnosod cyfeiriadau at reoliadau eraill yr UE sydd wedi'u hailwampio. Gan fod Rheoliad (UE) 653/2014 wedi newid Rheoliad (UE) 1760/2000, rhaid i'r ddeddfwriaeth ddomestig nawr adlewyrchu'r newidiadau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ar ddeall bod Lloegr am ddod â rheoliadau diwygio (a nifer o newidiadau rheoleiddio eraill) i rym gan ddefnyddio Offeryn Statudol tebyg. Byddai'n ddoeth i reoliadau Cymru fod yn gyson â nhw gan fod angen i'r fasnach cig a chynnyrch anifeiliaid rhwng Cymru a Lloegr, oherwydd ei natur, fod yn ddifwlch. Gan fod yr asiantaethau archwilio a'r awdurdodau gorfodi yn gweithio ar lefel Cymru a Lloegr ac yn defnyddio'r un manylebau, bydd rheoliadau cyfatebol yn sicrhau nad yw'r farchnad yn cael ei llurgunio a bydd llai o risg o ddiffygion yn y gadwyn gyflenwi.

Dogfen 1

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau Cyffredinol

Dewiswch ba un o'r isod sy'n eich cynrychioli chi orau:

- I. Ffatri prosesu cig
- II. Os arall (manyhwch)

Cwestiwn 1: Beth yw'ch meddyliau ynghylch diweddarau Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 i adlewyrchu'r newidiadau gorfodol a thechnegol a gynigir yn rheoliad yr UE?

- I. Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod.

Cwestiwn 2: Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: